

# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid  
*Clerk and Chief Financial Officer*

**Donna Watts**

Rhif Ffôn: 01248 602131

Ebost: [CyngorLlandygai@ogwen.org](mailto:CyngorLlandygai@ogwen.org)

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Tregarth  
**Nos Iau 21 Chwefror 2019 am 1830**

## **PRESENNOL:**

Y Cynghorydd Dafydd Owen

Y Cynghorydd Gwen Griffith

Y Cynghorydd Angharad Williams

Y Cynghorydd Dafydd Roberts

Cynghorydd Gabrielle Wyn

Y Cynghorydd Mair Jones

Y Cynghorydd Mair Owen Pierce

Y Cynghorydd Iwan Hywel

Y Cynghorydd Richard Fraser-Williams

**1. Croesawyd** pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Mair Jones.

Ymddiheuriadau gan y Cyng. Mair Leverett a Huw P Jones.

Cydymdeimlwn gyda Cyng. Angharad Williams ar eu profedigaeth diweddar.

## **2. Enwebiad Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru – cyflwyniad gan Dr D Roberts**

Diolchwyd i'r Dr Dafydd Roberts am ei gyflwyniad diddorol ac addysgiadol. Y Clerc i lunio llythyr cefnogaeth i'r cais a'i danfon at Sioned Williams a Deilydd Portffolio Datblygu Economaidd, Cyngor Gwynedd.

Nodwyd Cyng. Gwen Griffith ei gwerthfawrogiad o holl waith caled Dr D Roberts dros yr blynyddoedd.

Y Clerc i holi'r Adran Gynllunio ynglŷn a safle Felin Fawr.

## **3. Cofnodion**

**Penderfynwyd:** Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2019.

## **4. Materion yn codi o'r cofnodion**

**4.1** Llwybr beics pentref Llandygai – Cyngor Gwynedd wedi ymateb. Y Clerc wedi gofyn iddynt ail-linellu'r llwybr.

**4.2** Tarmac yn codi yn Bro Syr Ifor - y Cyng. Dafydd Owen am gysylltu gyda Cyngor Gwynedd. Problem hefyd yn Erw Faen.

**4.3** Wal wedi ei malu ar Ffordd Tanrhiw yn dilyn damwain car. Gwaith blêr o'i roi yn ôl at ei gilydd. Dim ymateb hyd yn hyn gan Gyngor Gwynedd.

**4.4** Ffens wedi disgyn ar y Lôn Las wrth gerdded tuag at y twnel. Y Cyng. Dafydd Owen wedi nodi fod y Cyngor wedi ei farcio gyda tâp diogelwch, ond gwaith cynnal heb gychwyn.

- 4.5.** Lloches bws yn mynedfa pentref Llandygai – dim angen cais cynllunio ar gyfer gosod y lloches. Yn dilyn danfon llythyrau i cartrefi cyfagos, wedi derbyn sel bendith eu bod yn hapus i'r lloches gael ei leoli yno. Y Clerc i wneud ymholiadau prisiau.
- 4.6** Goleuadau stryd Mynydd Llandygai – problemau gyda rhai ohonynt:  
 Tan y Bwlch – golau yn diffodd am 9.30yh  
 Llwybr Main – golau ddim yn gweithio  
 Llwybr Main – y golau sydd ar yr arwydd ' Ildiwch' yn fflachio.  
 Y Clerc i gael diweddariad.
- 4.7** Problemau gor-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig. Y ffordd rhwng Llwybr Main a Tan y Bwlch yn cael ei ddefnyddio fel trac rasio. Angen cynigion i arafu'r traffig. Y Cyng. Richard Fraser-Williams wedi sôn yn cyfarfod y llywodraethwyr am y syniad o'r plant i wneud posteri i'w gosod ar y ffordd, yr aelodau yn hoff o'r syniad. Y Clerc wedi holi yr heddlu unwaith eto, dim ymateb hyd yn hyn. Cadarnhawyd y bydd Dafydd Wyn Williams, Pennaeth yr Adran Amgylchedd yn mynychu'r cyfarfod ym mis Mawrth. Y Clerc i danfon llawlyfr yr Adran i holl aelodau, ac iddynt ymateb gyda pynciau trafodaeth erbyn dydd Gwener, 1 Mawrth 2019.
- 4.8** Hysbysfwrdd Llandygai – wedi cael ei osod ger Ysgol Llandygai.
- 4.9** Diffibriliwr –cadarnhawyd bod y diffibriliwr wedi cael ei osod ar y Ganolfan yn Nhregarth. Cyng. Mair Leverett i wneud ymholiadau ynglyn a gael caniatad i rhoi un ar Neuadd Talgai. Y Clerc i archebu arwyddion dwyieithog i rhoi o amgylch y pentref, ac hefyd ar gyfer y Diffibriliwr yn Mynydd Llandygai. Mi fydd yno hyfforddiant ar gael i aelodau o'r cyhoedd ar y 14 Mai 2019 yn Ganolfan Tregarth. Y Clerc i hyrwyddo a'i rhoi yn Llais Ogwan.
- 4.10** Llwybr o Parc fyny at Lôn y Grug – angen sylw. Y Cyng. Dafydd Owen am gysylltu hefo'r contractwr.
- 4.11** Lôn Hermon a Lôn y Grug – baw ci dal yn broblem yno. Y Clerc wedi cysylltu gyda Cyngor Gwynedd, dim ymateb hyd yn hyn.
- 4.12** Rali – 8 Rhagfyr 2018 - Y Clerc wedi danfon llythyr at Clwb Moduron Môn ac Arfon ac at Cyngor Gwynedd i gwyno am y Rali hwn, heb dderbyn ymateb hyd yn hyn. Y Clerc i holi am ddiweddariad.
- 4.13** Cysgodfan Bws Sling ac Mynydd Llandygai – graffiti anwedus – cadarnhawyd fod yr gwaith paentio wedi gael ei gwblhau.

## **5. Gohebiaeth**

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Chwefror 2019'

**Cyflwynwyd:** Ebst Dafydd Wyn Williams ynglyn a mynychu cyfarfod mis Mawrth – trafodwyd uchod.

**Cyflwynwyd:** Aelodaeth 2019-20 Un Llais Cymru – y Clerc i holi Cynghorau eraill am fanteision aelodaeth cyn adnewyddu. Ail-gyflwyno'r gohebiaeth yn y cyfarfod nesaf.

**Cyflwynwyd:** Adolygiad Cludiant – yr aelodau i gwblhau'r holiadur ar lein.

**Cyflwynwyd:** Wi-Fi Cymunedol Bwthyn Ogwen – drafft costau – y Clerc i gael mwy o wybodaeth.

## 6. Gwaith y mis

**6.1** Codwyd materion ynglyn a problemau ynglyn a lechyd Diogelwch ar ddiwrnod casglu biniau, yn enwedig ar Ffordd Tanrhiw. Mae pobl gyda goet neu throliau gorfod cerdded yn ganol y ffordd yn lle ar y palmant, oherwydd y biniau ar y palmant a ceir wedi parcio – i'w drafod gyda Dafydd Wyn Williams yn yr cyfarfod nesaf.

**6.2** Biniau Halen – rydym dal yn disgwyl i Cyngor Gwynedd gosod bin yn Bro Syr Ifor.

## 7. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr

**Canolfan Tregarth** – Mae'r llawr yn yr ystafell gyfarfod angen ei gwblhau, ac mae'r Pwyllgor yn chwilio am hen luniau o'r Ganolfan/Gorsaf Dren i rhoi ar y waliau.

## 8. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu

**8.1.** Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Ionawr.

**8.2.** Rheoli Risg: Dim i'w ystyried ar hyn o bryd

## 9. Taliadau

### Awdurdodwyd y canlynol

The Parish Notice Board Company	£804.00
Zoll Medical UK Ltd	£960.00
Pawle & Co. Ltd	£460.80
SADS UK (Sudden Adult Death Trust)	£50.00
Partneriaeth Ogwen	£22.33
A Evans	£60.00

## 10. Sedd Wag Ward Mynydd Llandygai

Wedi derbyn dau gais am y sedd. Yn dilyn pleidlais, yr ymgeisydd llwyddiannus oedd Jacob Milner.

## 11. Rhoddion 2019

Trafodwyd y rhestr rhoddion. Penderfynwyd ar y swm y byddai pob mudiad yn ei dderbyn. *(Datgan diddordeb pan fo angen)*

Llais Ogwan	£350.00
Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen	£350.00
Cylch Meithrin Mynydd Llandygai	£350.00
Cwmni Llechen Las	£250.00
Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen	£250.00
Theatr Bara Caws	£250.00
Siop Ogwen	£100.00
Nant Ffrancon Brownies	£200.00
Cylch Meithrin Tregarth	£350.00
Canolfan Lôn Abaty	£250.00
Clwb Rygbi Bethesda	£250.00
Clwb Criced a Bowlio Bethesda	£250.00
Carers Trust	£100.00
Ffermwyr Ifanc Eryri	£100.00

## 12. Penderfyniadau Cynllunio

C18/0123/16/TC

Spring Cottage, Carreg y Fedwen, Sling  
Cais tystysgrif cyfreithloni defnydd fel  
annedd breswyl Defnydd Dosbarth C3

**Penderfyniad:** Caniatawyd yn ddi-  
amodol

C15/0966/16/MG

Tir ger Pentwmpath, Llandygai  
Cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer  
codi 15 tŷ gan gynnwys 5 tŷ  
fforddiadwy

**Penderfyniad:** Holl ymgynghoriadau  
drosodd

C18/0571/16/HY

Llys y Gwynt, Bangor  
Arwyddion amrywiol wedi ei goleuo  
ac heb eu goleuo

**Penderfyniad:** Holl ymgynghoriadau  
drosodd

NP3/16/28

Ogwen Falls Snack Bar, Nant Ffrancon,  
Bethesda

Codi monopolyn 15m o uchder wedi'i  
gladio â choed

**Penderfyniad:** Cais wedi ei gofrestru

C18/0169/16/CR

Fferm Cororion, Lon y Wern, Tregarth  
Dymchwel estyniad unllawr presennol  
(ôl-weithredol) a gosod estyniad yn ei  
le

**Penderfyniad:** Cais wedi ei gofrestru

C18/0736/16/LL

Fferm Dinas Caravan Park, Tregarth  
Estyniadau a newidiadau ynghyd ag  
ail-wampio cyffredinol a gwaith  
adnewyddu i floc toiledau presennol

**Penderfyniad:** Holl ymgynghoriadau  
drosodd.

C18/0746/16/LL

Vestry, Llys Owen, Tregarth  
Dymchwel yr adeilad presennol a  
chodi uned breswyl fasnachol agored  
ac uned breswyl fforddiadwy newydd

**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag  
amodau

**C18/0767/25/LL**

Coed Wern, Glasinfryn  
Safle arfaethedig ar gyfer 40 llety,  
adeilad derbynfa, a chreu 2  
nodweddion dŵr. Ynghyd a ffurfio  
ffyrdd mynediad cysylltiedig a  
meysydd parcio, tirweddu a gwaith  
cysylltiedig eraill.

**Penderfyniad:** Holl ymghynghoriadau  
drosodd

**C18/1142/16/TP**

Coedlan i'r gogledd o Pentwmpath,  
Llandygai  
Creu gorchymyn diogelu coed

**Penderfyniad:** Cais wedi ei gofrestru

**C19/0002/16/LL**

28 Tan y Bwlch, Mynydd Llandygai  
Dymchwel rhan o estyniad to fflat  
presennol o chodi estyniad gromen  
cefn ynghyd a newidiadau mewnol

**Penderfyniad:** Holl ymghynghoriadau  
drosodd

**C18/1204/16/LL**

17 Llwybr Main, Mynydd Llandygai  
Estyniad cefn i annedd (cynllun  
diwydiedig)

**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag  
amodau

## 12. Ceisiadau Cynllunio

**C18/0422/16/LL**

Y Wern, 2, Pentref Llandygai  
Apel – Codi ty deulawr, llecynau parcio  
ynghyd ac offer trin carthion

**Penderfyniad:** Dim sylwadau

**C19/0081/16/LL**

44 Tal y Cae, Tregarth  
Gosod ffenestri former yn y to

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad

**C18/0124/16/LL**

Spring Cottage, Carreg y Fedwen, Sling  
Estyniad unllawr

**Penderfyniad:** Holi'r Swyddog  
Cynllunio

**C19/0045/16/LL**

Ty'r Ysgol, Tregarth  
Codi ty deulawr a mynedfa (cynllun  
diwygiedig i'r hyn a wrthodwyd ar  
apel o dan  
cyfeirnod C18/0218/16/LL)  
**Penderfyniad:** Cefnogi

**C19/0123/16/LL**

Las Landrovers Ltd, Stad  
Ddiwydiannol, Llandegai  
Estyniad i'r uned presennol ynghyd ag  
estyniad i'r suddfan ddwr  
**Penderfyniad:** Cefnogi

**C19/0105/16/LL**

Clwb Criced Bangor, Ffordd Llandygai,  
Llandygai  
Dymchwel yr adeilad presennol sy'n  
cael ei ddefnyddio gan y clwb criced a  
chodi adeilad newydd yn ei le  
**Penderfyniad:** Cefnogi

**13. Unrhyw fater brys arall**  
Dim